29 Mai 2009

LLEUCU YN CIPIO CORON CAERDYDD

Lleucu Fflur Hughes, aelod unigol o Gylch Llŷn, Rhanbarth Eryri sy'n cipio Coron Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Bae Caerdydd heddiw.

Ganed Lleucu, 22 oed, ym Mhencaenewydd, Eifionydd. Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Llangybi, Ysgol Uwchradd Glan y Môr a Choleg Meirion Dwyfor, Pwllheli.

Graddiodd gyda gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg o Brifysgol Bangor, cyn derbyn MA mewn Ysgrifennu Creadigol o'r adran honno y llynedd. Mae Lleucu bellach yn gweithio fel gohebydd i bapur newydd Y Cymro ers mis Ionawr.

Er iddi dderbyn ychydig o lwyddiant yn yr Urdd yn y gorffennol yn ysgrifennu straeon byrion a cherddi, dyma'r tro cyntaf iddi gystadlu am un o'r prif wobrau.

Dywed Lleucu fod ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bae Caerdydd yn anrhydedd arbennig a bod ei diolch yn fawr i rai o'i hathrawon a roddodd y cychwyn gorau posib iddi ym myd addysg:

''O'r cychwyn un, cefais fy addysgu gan griw o athrawon gweithgar tu hwnt. Diolch arbennig i Mrs Elin Owen, Prifathrawes Llangybi a Miss Bethan Williams a Mrs Delyth Roberts, fy athrawon Cymraeg yn Glan y Môr a Choleg Meirion Dwyfor am eu cefnogaeth. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Athro Gerwyn Williams o Brifysgol Bangor am ei arweiniad ac am fy annog i gystadlu.''

Y tu allan i oriau gwaith, mae Lleucu yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth, chwarae offerynnau, crwydro, cymdeithasu yn ogystal â threulio amser gyda theulu a ffrindiau.

Meddai beirniaid y gystadleuaeth eleni, Arwel 'Rocet' Jones ac Annes Glynn am waith y llenor buddugol;

''Dyma stori afaelgar, fywiog sy'n powlio yn ei blaen ac a ddaliodd ein sylw o'r frawddeg gyntaf. Dyma heb os awdur hyderus, rhyfeddol o aeddfed sydd â dawn arbennig i greu deialogau sy'n taro deuddeg.''

Llŷr Gwyn Lewis, Aelwyd Y Waun Ddyfal sy'n dod yn ail heddiw ac Elis Meredydd Gomer, aelod unigol tu allan i Gymru sy'n cael y drydedd wobr.

Rhoddir replica'r goron eleni gan Gronfa Goffa Gwyn Daniel a noddwyd y seremoni gan HSBC.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

29 May 2009

CARDIFF CROWN FOR LLEUCU

The winner of the Crown at Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod at Cardiff Bay today is Lleucu Fflur Hughes, from Llŷn, Eryri.

Lleucu, 22 years old, was born in Pencaenewydd, Eifionydd. She was educated at Ysgol Gynradd Llangybi, Ysgol Uwchradd Glan y Môr and Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli.

She graduated from Bangor University with a first class honours degree in Welsh before completing an MA in creative writing there last year. Since January, Lleucu has been working as a reporter for Y Cymro newspaper in Porthmadog.

She has received some success with the Urdd over the years, in particular writing short stories and poems, but this is the first time she has competed for one of the main competitions.

Lleucu considers winning the Crown at the National Urdd Eisteddfod in Cardiff Bay to be a great honour. She would like to thank her teachers for giving her the best possible start in education:

''From the beginning, I was taught by excellent teachers. I would like to thank Mrs Elin Owen, Llangybi Head teacher and Miss Bethan Williams and Mrs Delyth Roberts, my Welsh teachers at Glan y Môr and Coleg Meirion Dwyfor for their support. I would also like to thank Gerwyn Williams from Bangor University for encouraging me to compete.''

In her spare time, Lleucu likes to listen to music, play instruments, socialise as well as spend time with her family and friends.

Arwel 'Rocet' Jones and Annes Glynn were the adjudicators:

''This is a gripping and lively story which caught our attention from the start. We have here a confident and extremely mature author who has a special talent for creating perfect dialogues.''

Llŷr Gwyn Lewis, Aelwyd y Waun Ddyfal comes second and Elis Meredydd Gomer, Individual Member from outside Wales receives third prize.

The replica of the crown this year is given by Gwyn Daniel Memorial Fund and the ceremony was sponsored by HSBC.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361